

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol y Cyngor gynhaliwyd nos Lun, 3 Mehefin 2019 am 7.30yh yn Hen Ysgol y Ferwig

Presennol

Cyng. Auriol Williams (*Cadeirydd*)

Cyng. Llinos Price

Cyng. Peter Williams

Cyng. Clive Davies (*aelod lleol o'r Cyngor Sir*)

Mrs Hildreth Owen (*Clerc dros dro*)

Cyng. Dilwyn Jenkins

Cyng. Eurig Lloyd

Cyng. Lyn Jones

Cyng Des Davies

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Auriol Williams, bawb i gyfarfod mis Mehefin yn cynnwys y Clerc dros dro, Mrs Hildreth Owen, sydd yn gwasanaethu am fod y Clerc ar ei gwyliau. Llongyfarchiadau i Glwb Ffermwyr Ifainc Penparc am ddod yn gydradd ail yn Rali Clwb Ffermwyr Ifainc Ceredigion. Gofynnwyd i'r Clerc anfon carden i longyfarch y Clwb.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyng. Matthew Morgan, Lloyd Jenkins.
- 3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol.**
Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins bod cofnodion mis Mai yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol.**
- 5. Materion yn codi.**
 - (a) Cyfethol Cynghorydd:**
Derbyniwyd llythyr o ymddiswyddiad oddi wrth y Cyng. Ann Stokoe. Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Stokoe am ei hymroddiad a'i chydweithrediad tra'r oedd yn aelod ar y Cyngor. Bu'n Gadeirydd hefyd yn ei thro. Gwelir eisiau ei doethineb mewn trafodaeth.
Mae'r Clerc wedi cynhyrchu poster o "Hysbysiad i Gyfethol" i'w arddangos yn yr hysbysfyrddau, y wasg leol a'r safle we ar 2 Gorffennaf. Awgrymwyd nodi 20 Gorffennaf yn ddyddiad cau i ymgeiswyr.
 - (b) Parcio ym Mhenparc:** Mae'r Cyng. Clive Davies wedi holi'r heddlu am y materion parcio ym Mhenparc. Dylai'r ardal weld mwy o bresenoldeb gan yr heddlu yn sgil penodi dau aelod ychwanegol i'r tîm ac maen nhw'n bwriadu edrych ar yr ardal lle mae goryrru'n digwydd.
 - (c) Llinellau Melyn:** Nid yw'r cynnig i beintio'r llinellau melyn ym Mhenparc wedi'i gymeradwyo i fynd rhagddo. Bwriedir cysylltu gyda Mr Tom Delph-Janiurek, Rheolwr/Beiriannydd Rheoli Trafndiaeth y Cyngor Sir, i ystyried y cais.
- 6. Ceisiadau am gymorth ariannol.**
I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.
Friends of the Aberporth Centre for Children with Special Needs I'w drafod ym mis Hydref 2019.

7. Cynllunio:

| <i>Rhif y Cais</i> | <i>Cyfeiriad a Bwriad</i> | <i>Sylwadau'r Cyngor</i> |
|--------------------|--|---|
| A190255 | Plot adjacent to Heol y Felin, Penparc, Cardigan Erection of a dwelling | Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad. |

8. Materion Ariannol.

Biliau i'w talu:

Cyflog y Clerc (Mai 2019)

101782

£308.77

Costau'r Clerc (Mai 2019)

101783

£48.60

Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Mai 2019)

101784

£77.20

Roscoe Plumbing & Heating Services (gwaith trwsio piben orlif)

101785

£88.08

Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Lyn Jones bod y biliau uchod yn cael eu talu.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Materion ariannol eraill:

Ail-lenwi'r ffordd: Mae'r aelodau wedi cwblhau'r ffurflen.

Anfonwyd "Ffurflen Flynyddol Cyngorau Cymuned a Chyngorau Tref yng Nghymru ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019" ynghyd â'r holl ddogfennau angenrheidiol i'r Archwilydd Allanol (Grant Thornton) ar 3 Mehefin 2019. Mae'r "Hysbysiad i bennu dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwyr" wedi ei arddangos yn yr hysbysfyddau a'r safle we ar 1 Mehefin 2019. Bydd y cyfrifon ar gael i'w harchwilio o 1-26 Gorffennaf 2019.

9. Gohebiaeth

| | | | |
|---|---|--|--|
| 3 | Treialon Cŵn Defaid Rhyngwladol Ceredigion | Llythyr o ddiolch am grant | Nodwyd. |
| 4 | Ysgol Penyparc | Llythyr o ddiolch am grant | Nodwyd. |
| 5 | Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru | Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Ceredigion – Adroddiad Argymhellion Terfynol (Mai 2019). | Gweler y manylion isod. Caiff y posteri eu harddangos yn yr hysbysfyddau. |
| 6 | Y Cyng. Ann Stokoe | Llythyr o ymddiswyddiad o'r Cyngor. | Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Stokoe am ei chyfraniad arbennig i'r Cyngor dros ei chyfnod fel cyngorydd brwdfrydig. |
| 7 | Cyngor Sir Ceredigion (Steffan Jones, Swyddog Rheoli Cyfeiriadau) | Cais i gofrestru uned fusnes gan y cwmni. Maent yn gofyn i'r cyngor lleol awgrymu enw addas ar gyfer yr adeilad. | Cytunodd y Cadeirydd drafod yr argymhellion a ddaeth i law gyda pherchennog y cwmni. |
| 8 | Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion 2020 | Seremoni Cyhoeddi i'w gynnal ger Canolfan Hamdden Aberteifi, ddydd Sadwrn, 29 Mehefin am 11:00yb. Gwahoddiad i ddau gynrychiolydd orymdeithio trwy ganol y dref. Rhaid ymgynnull ger y Ganolfan am 9:45yb. | Enwebwyd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, y Cyngorwyr Auriol Williams a Lloyd Jenkins i gynrychioli'r Cyngor. Y ffurflen i'w dychwelyd erbyn 14 Mehefin. |

[5] **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.** Mae copi o'r "Adroddiad Argymhellion Terfynol" a gyhoeddwyd ym Mai 2019 gan y Comisiwn ar gael gan y Clerc. Mae'r Adroddiad yn ymdrin ag "Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Ceredigion".

Mae'r Comisiwn yn argymhell cyfuno Cymunedau Aberporth a'r Ferwig i ffurfio ward etholiadol o 2,683 o etholwyr yn cael eu cynrychioli gan ddau gynghorydd. Mae'r Comisiwn wedi rhoi'r enw Cymraeg "Aber-porth a'r Ferwig" i'r ward etholiadol argymhellidig yn y Gymraeg ac "Aber-porth and Y Ferwig" yn Saesneg.

(Mae'r wybodaeth uchod ar gael ar dudalennau 14, 15, 16 o'r Adroddiad.)

10. Materion Eraill:

- Heol Mwnt** – Mae'r trefniadau a'r trafodaethau'n parhau rhwng perchennog y tir a'r Cyngor Sir.
- Arwyddwyd dogfennau Cynllun Iaith Gymraeg a'r Asesiad Risg** (gyda'r dyddiadau wedi'u newid).
- Hen Ysgol y Ferwig:** Datgelwyd gan y Cyng. Auriol Williams y bydd rhaid oedi cyn symud ymlaen â phrynu'r adeilad gan fod y Cyngor Sir wedi dod o hyd i ddogfennau hanesyddol, cyfreithiol yn ymdrin â'r brydles sydd angen eu harchwilio gan gyfreithwyr.
- Llwybr Cyhoeddus Dôl-werdd:** Cytunwyd bod y Clerc yn gofyn i Mr John Morris drasio'r llwybr rhwng y stad a'r briffordd.
- Llwybr Arfordir:** Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod sbwriel wedi ei adael ar y llwybr. Mae swyddog llwybrau'r Cyngor Sir wedi archwilio'r safle ac erbyn hyn mae'r cyfan yn glir.
- Sbwriel ar y Cae Pêl-droed:** Derbyniwyd cwyn bod poteli dŵr plastig wedi eu gadael ar y cae.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

11. Adroddiad y Cynghorydd Sir, y Cyng. Clive Davies

- (a) **Bwlch Brynteg:** Mae angen ailagor trafodaethau ynglŷn â'r broblem. Bydd y Cyng. Davies yn parhau i drafod gyda Mrs Catrin Newbold o adran gynllunio'r cyngor sir i ddarganfod y ffordd ymlaen.
- (b) **Patch:** Mae'r trafodaethau ynglŷn â'r anghytundeb rhwng swyddogion Sianel Glir Afon Teifi a pherchennog busnes cychod yn parhau.
- (c) **Cynllun Lle:** Mae'r holiaduron wedi eu dosbarthu; disgwylir ymateb ac argymhellion oddi wrth y cyhoedd erbyn diwedd Gorffennaf.
- (d) **Cyfarfod Cyhoeddus:** Mae noson o drafodaeth wedi ei threfnu gan y Cyng. Davies a'r Aelod Seneddol, Ben Lake, yng Ngorffwysfa'r Pysgotwr, Stryd y Ceir, ar 14 Mehefin am 7:00yh i drafod cyfleon busnes yn yr ardal: "Sefydliadau Cymunedol, Strwytherau a Grantiau".
- (e) **Cynllun Datblygu Lleol Newydd Ceredigion (CDLI) 2018-2033.** Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG) ac Aseiad Amgylcheddol Stradegol (AAS) ar y CDLI. Derbynnir sylwadau'n ysgrifenedig erbyn canol dydd 19 Mehefin 2019. Gwybodaeth bellach: ldp@ceredigion.gov.uk neu 01545 572123.

12. Dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol nesaf: 1 Gorffennaf 2019 (YB).

Cyfarfodydd y Cyngor am 2019:

2 Medi (F) 5 7 Hydref (YB) 4 Tachwedd (F) 2 Rhagfyr (YB)
Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig. YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the General Council Meeting held on Monday, 3 June 2019 at 7.30yh at Ferwig Old School

Present

Cllr Auriol Williams (*Chairperson*)

Cllr Llinos Price

Cllr Peter Williams

Cllr Clive Davies (*Local member of the County Council*)

Mrs Hildreth Owen (*Interim Clerk*)

Cllr Dilwyn Jenkins

Cllr Eurig Lloyd

Cllr Lyn Jones

Cllr Des Davies

- 1. Chairperson's Welcome:** The Chairperson, Cllr Auriol Williams, welcomed all to the meeting including the Interim Clerk, Mrs Hildreth Owen deputising for the Clerk who is on vacation. Congratulations were offered to Penparc Young Farmers Club on their recent success in obtaining joint second in the Ceredigion County Rally.
- 2. Apologies for absence:** Cllrs Matthew Morgan, Lloyd Jenkins.
- 3. Confirmation of minutes of previous meeting.**
Cllr Llinos Price proposed and Cllr Dilwyn Jenkins seconded that the May minutes were correct.
- 4. Declaration of personal or prejudicial interest.**
- 5. Matters arising.**
 - (a) Co-option of Councillor:**
A letter of resignation has been received from Cllr Ann Stokoe. The Chairperson thanked Mrs Stokoe for her dedicated service and co-operation to the community and the Council; she also served as Chairperson. Her wisdom and input during discussion have been much appreciated.
The Clerk has produced the "Notice to Co-opt" to be displayed in the notice boards, local press and the website as from 2 July. It was recommended to register 20 July as the closing date for nominations.
 - (b) Parking at Penparc:** Cllr Clive Davies has discussed the parking issues with members of the Constabulary. It is expected that more police presence will be in attendance regarding the problem of motorists exceeding the speed limit through the village.
 - (c) Yellow lines:** The proposed painting of yellow lines in the village of Penparc has not been approved. Further discussions are expected with Mr Tom Delph-Janiurek, Senior Engineer Traffic Management officer with the County Council.
- 6. Applications for financial support.**
To be discussed in April and October in accordance with sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.
Friends of the Aberporth Centre for Children with Special Needs To be discussed in October 2019.

7. Planning:

| <i>App. No.</i> | <i>Address and Purpose</i> | <i>Council's observations</i> |
|-----------------|--|-------------------------------|
| A190255 | Plot adjacent to Heol y Felin, Penparc, Cardigan Erection of a dwelling | The Council has no objection |

8. Financial matters.

Bills paid:

Clerk's salary (May 2019)

101782

£308.77

Clerk's expenses (May 2019)

101783

£48.60

HMRC: Clerk's income tax (May 2019)

101784

£77.20

Roscoe Plumbing & Heating Services (repairs to overflow pipe)

101785

£88.08

Cllr Dilwyn Jenkins proposed and Cllr Lyn Jones seconded that the above bills be paid.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Other financial matters:

Completion of mandate.

The “Smaller local government bodies in Wales Annual Return for the year ended 31 March 2019” and relevant documents were posted to the External Auditor (Grant Thornton) on 3 June 2019. The “Notice of appointment of the date for the exercise of electors’ rights” has been displayed in the notice boards from 1 June 2019. The documents will be available for scrutiny from 1-26 July 2019.

9. Correspondence

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3 | Ceredigion International Sheepdog Trials | Acknowledgment of Council grant. | Noted. |
| 4 | Ysgol Penyparc | Acknowledgment of Council grant. | Noted. |
| 5 | Local Democracy and Boundary Commission for Wales | Review of the Electoral Arrangements for the County of Ceredigion. “Final Recommendation Report” (May 2019). | See information below. Notice has been displayed in notice boards. |
| 6 | Cllr Ann Stokoe | Letter of resignation from Council. | The Chairperson thanked Cllr Stokoe for her dedicated input to civic matters during her tenure as councillor. |
| 7 | Ceredigion County Council (Steffan Jones, Address Management Officer) | An application to register a business unit. Request by the owners for the Council to suggest a name for the building. | The Chairperson agreed to discuss the recommendations offered by members with the owners. |
| 8 | Eisteddfod Genedlaethol Cymru Ceredigion 2020 | The Proclamation Ceremony to be held near the Leisure Centre, Cardigan on Saturday, 29 June at 11:00am. An invitation is extended to two representatives from the Council to join the procession from the Centre at 9:45am. | The Chairperson and Vice-Chair, Cllrs Auriol Williams and Lloyd Jenkins have been nominated to represent the Council. Form to be returned by 14 June.. |

- [5] **Local Democracy and Boundary Commission for Wales.** A copy of the “Final recommendation Report” is available with the Clerk. The Report is a “Review of the Electoral Arrangements of the County of Ceredigion”. The Commission recommends that the communities of Aberporth and Y Ferwig are combined to form an electoral ward of 2,683 electors represented by two councillors. The Commission has given the recommended electoral ward the Welsh language name of “Aberporth a’r Ferwig” and the English language name of “Aberporth and Y Ferwig”.
(Further information is available on pages 14, 15 and 16 of the Report.)

10. Other matters:

- (a) **Heol Mwnt** – Consultation is on-going between the County Council and the owners of the land.
- (b) **The Risk Assessment and the Welsh Language Scheme** documents were duly signed by the Chairperson.
- (c) **Hen Ysgol y Ferwig:** Cllr Auriol Williams declared that the decision to sell the building has been delayed as the County Council has discovered historical, legal documents pertaining to the lease; the paper-work is to be scrutinised by solicitors before purchase can be concluded.
- (d) **Dôl-werdd Public Footpath:** It was agreed to ask Mr John Morris to trash the path for the benefit of users.
- (e) **Coastal Path:** A complaint has been received from a member of the public that rubbish had been deposited on the path. A coastal path officer from the County Council has since inspected the site and deemed it clear of all rubbish and litter.
- (f) **Litter on the Football Field, Penparc:** Complaints have been received regarding the depositing of empty plastic water bottles on the field.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

11. County Councillor's Report: Cllr Clive Davies

- (a) **Brynteg:** Members agreed that negotiations regarding the unauthorised removal of the hedge at Brynteg needs to be reopened. Cllr Clive Davies agreed to discuss the options with Mrs Catrin Newbold, officer with the planning department of the County Council, in order to reach a satisfactory conclusion.
- (b) **Patch:** The disputed issue between the Afon Teifi Fairway Committee and a local boat owner continues.
- (c) **Place Plans:** The questionnaires have been distributed. Closing date for suggestions from the public has been set for the end of July.
- (d) **Public Meeting:** Cllr Davies and Ben Lake MP will hold a business seminar in the Fisherman's Rest, Quay Street, on 14 June at 7:00pm to discuss business opportunities in the area: "Community Organisation Structures and Grants".
- (e) **Ceredigion Replacement Local Development Plan (LDP) 2018-2033.** Sustainability Appraisal (SA) and Strategic Environmental Assessment (SEA) Scoping Report Consultation. Any comments should be sent in writing for midday on 19 June 2019. Further information: ldp@ceredigion.gov.uk or 01545 572123.

12. Date of next Council Meeting: 1 July 2019 at 7.30pm at Ystafell Berkley

Council Meetings for 2019

2 September (F) 7 October (YB) 4 November (F) 2 December (YB)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting